



Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC-037223/HL

**Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy
(Gors Road Towyn - Terfyn Cyflymder 40mya) 2020**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 a fydd yn gwahardd unrhyw un rhag gyrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sydd dros 40 milltir yr awr ar hyd y darn hwnnw o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â mapiau sy'n dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn arfaethedig, ar wefan y Cyngor. Gallwch wneud cais am ddogfennau papur trwy ffonio 01492 575420.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, ar bapur at yr Adran Draffig, yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau, Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN neu at traffig@conwy.gov.uk erbyn 20 Tachwedd 2020.

Atodlen

| | |
|------------------------|---|
| Gors Road Towyn | O bwynt 230 metr i'r de o'i chyffordd â Brook Avenue i bwynt 15 metr i'r Gogledd o'i chyffordd â Ffordd Rhuddlan. |
|------------------------|---|

Dyddiedig: 28 Hydref 2020

Delyth E Jones
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu